# Amserlen Penderfyniadau

## Is-bwyllgor Trwyddedu

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 28 Medi 2020**

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 28 Medi 2020, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: J Hughes (Cadeirydd), Yvonne Forsey, Joan Watkins

---

**LIC PAN 03/20**

**<u>Penderfyniad</u>**

**<u>Adolygu trwydded mangre o dan adran 51 o Deddf Trwyddedu 2003, The Courtyard, 46-50 Heol Cambrian, Casnewydd, NP20 4AB.</u>**

Bu Is-bwyllgor Trwyddedu Cyngor Dinas Casnewydd yn ystyried cais gan Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd i adolygu trwydded mangre The Courtyard, 46-50 Heol Cambrian, Casnewydd. Bu'r is-bwyllgor yn ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar gan Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Clywyd hefyd gan Mr Matthew Phipps, cyfreithiwr, a gynrychiolodd The Courtyard, a deiliad y drwydded a goruchwyliwr dynodedig y fangre, Mr Harris.

• Roedd yn amlwg i'r pwyllgor ar ôl gwylio teledu cylch cyfyng a'r clip cyfryngau cymdeithasol fod y fangre ar 24 Gorffennaf 2020 a 25 Gorffennaf 2020 yn gweithredu fel clwb nos yn groes i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau'r Coronafeirws) Cymru 2020.

• Teimlai'r pwyllgor fod y fangre'n gwbl ymwybodol nad oeddent yn gallu gweithredu fel clwb nos yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau'r Coronafeirws) Cymru 2020. Cefnogir y farn hon gan dudalen we cyfryngau cymdeithasol y fangre ei hun, a'r ffaith bod y fangre wedi derbyn cyngor gan Reolwr Trwyddedu'r cyngor, a roddodd wybod iddi na allai weithredu fel clwb nos.

• Ar y ddwy noson dan sylw, dywedodd y fangre fod goruchwyliwr dynodedig y fangre a'r holl reolwyr wrth y drws ffrynt mewn ymgais i sicrhau bod y ciw yn cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd y pwyllgor yn derbyn nad oedd rheolwyr y fangre yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd mewn rhannau eraill o'r fangre.

• Teimlai'r pwyllgor hefyd fod y fangre, wrth ddarparu goleuadau disgo/hwyliau, llawr dawnsio, a cherddoriaeth DJ uchel, yn annog pobl i ddawnsio. Yn hytrach na chwarae cerddoriaeth dawel fel yr hysbysebwyd, chwaraeodd y fangre gerddoriaeth a oedd yn fwy cysylltiedig â chlwb nos, fel y gwelir yn y clip cyfryngau cymdeithasol a gyflwynwyd gan

Safonau Masnach. Gwaethygwyd hyn gan dystiolaeth cyfryngau cymdeithasol bellach a ddangosodd lun o lawr dawnsio dan ei sang gyda'r geiriau "it was meant to be a quiet one".

• Nodwyd hefyd o dystiolaeth teledu cylch cyfyng fod y staff wrth y drws yn bresennol ar y llawr dawnsio ac yn gwneud fawr ddim neu ddim byd i atal cwsmeriaid rhag cadw at reolau cadw pellter cymdeithasol wrth fyrddau neu ar y llawr dawnsio ei hun. Yn wir, roedd un clip yn dangos aelod o'r staff wrth y drws i bob golwg yn cymeradwyo'r hyn oedd yn digwydd ar y llawr dawnsio.

• Mae'r pwyllgor yn derbyn nad yw'r fangre wedi gweithredu fel clwb nos ers 25 Gorffennaf 2020, gan fod archwiliadau pellach wedi dangos bod y fangre wedi cydymffurfio'n fras â rheoliadau COVID-19. Fodd bynnag, daeth y pwyllgor i'r casgliad bod cydymffurfedd, o leiaf yn rhannol, oherwydd y ffaith bod y fangre yn ymwybodol ei bod yn cael ei ymchwilio gan Safonau Masnach ar ôl i'r adran hon ofyn am ffilm teledu cylch cyfyng.

• Er i'r pwyllgor dderbyn bod y fangre yn addef ei bod "wedi gwneud pethau'n anghywir", roedd yn rhaid gofyn y cwestiwn amlwg pam y byddai deiliad trwydded mangre cyfrifol yn cael rhywbeth mor sylweddol o'i le ar un noson, ac yn parhau yn yr un modd ar y noson ganlynol. Daeth y pwyllgor i'r casgliad bod rheolwyr y fangre yn gwbl ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd ar y fangre, ac nad oeddent yn ystyried diogelwch ei staff na'i chwsmeriaid, nac yn wir yr effaith y gallai hyn ei chael ar y gymuned ehangach fel yr amlygwyd gan y cyflwyniadau gan y bwrdd iechyd.

• Roedd y pwyllgor yn gwerthfawrogi, er bod hwn yn gyfnod digynsail a heriol, ei fod o'r farn y byddai unrhyw un rhesymol a edrychodd ar y ffilm a gyflwynwyd fel tystiolaeth wedi cael ei synnu a'i siomi'n fawr gan yr anghyfrifoldeb llwyr a ddangoswyd yn y fangre yng nghyd-destun y pandemig. Felly, penderfynodd y pwyllgor fel a ganlyn, gan gadw'r pedwar amcan trwyddedu mewn golwg.

1. Roedd camau gweithredu'r fangre ar 24 a 25 Gorffennaf 2020 yn amlwg yn tanseilio dau o'r pedwar amcan trwyddedu, sef Troseddu ac Anhrefn, a Diogelwch y Cyhoedd, am ei bod yn gweithredu'n amlwg fel clwb nos ac mewn modd anghyfrifol dros ben, yn groes i reoliadau COVID-19.

Ystyriodd y pwyllgor yr holl opsiynau a oedd ar gael ac, ar ôl clywed yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd atal trwydded mangre The Courtyard am gyfnod o **dri mis**.

**<u>Ymgynghoriad</u>**

**Gweithredir gan:** 28 Medi 2020
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith